**Rhif: WG50772**

Llywodraeth Cymru

# Crynodeb o'r ymatebion ac Ymateb y Llywodraeth ar gyfer diwygiadau i Ran B (Diogelwch Tân) o'r Rheoliadau Adeiladu a dogfennau canllaw statudol cysylltiedig, gan gynnwys cais am dystiolaeth

Dyddiad cyhoeddi: 08 Ionawr 2025

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG50772, ISBN digidol 978-1-83625-693-9

# Cynnwys

1. Cyflwyniad ........................................................................................................ 2
2. Ymatebion i’r Ymgynghoriad – Trosolwg ........................................................ 2
3. Ymdrin ag ymatebion ......................................................................................... 3
4. Rhan 1 ................................................................................................................ 3
5. Rhan 2 ................................................................................................................ 17
6. Cais am dystiolaeth ........................................................................................... 21
7. Asesiadau o Effaith ............................................................................................ 23
8. Y Camau Nesaf ................................................................................................... 25

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a gyhoeddwyd ar 17 Hydref 2023 mewn perthynas â diwygiadau i Ran B (Diogelwch Tân) o'r Rheoliadau Adeiladu a dogfennau canllaw statudol cysylltiedig, gan gynnwys cais am dystiolaeth.

1.2 Nid yw'n ceisio nodi pob pwynt a godwyd gan ymatebwyr yn fanwl, er y dylid nodi bod ystyriaeth briodol wedi'i roi i bob sylw p'un a yw'n cael ei nodi yma ai peidio. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu ymateb i bob cwestiwn yn yr ymgynghoriad.

1.3 Y safbwyntiau a nodir yn y crynodeb hwn yw'r rhai a fynegwyd gan yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad ac nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu safbwyntiau Llywodraeth Cymru.

# 2. Ymatebion i'r Ymgynghoriad – Trosolwg

2.1 Cafwyd 51 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Mae'r ymatebwyr a gwblhaodd y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad wedi'u neilltuo i'w sefydliad. Dengys y tabl isod nifer yr ymatebion a gafwyd gan bob sector.

| **Math o Sefydliad:** | **Nifer** |
|---|---|
| • Adeiladwr / Datblygwr | 0 |
| • Gweithgynhyrchwr | 8 |
| • Dylunydd / Peiriannydd / Syrfëwr | 4 |
| • Rheoli Adeiladu Awdurdodau Lleol | 7 |
| • Arolygydd Rheoli Adeiladu Cymeradwy | 1 |
| • Cymdeithas fasnach | 18 |
| • Peiriannydd Tân/Awdurdod Tân | 3 |
| • Rheolwr Cyfleusterau | 0 |
| • Manwerthwr | 0 |
| • Gweithiwr Adeiladu Proffesiynol | 3 |
| • Rheolwr Eiddo/Landlord | 1 |
| • Sefydliad Cynrychioliadol Landlordiaid | 3 |
| • Elusen | 1 |
| • Ymgyrchydd neu Grŵp Lobïo | 0 |
| • Parti Arall sydd â Diddordeb (nodwch)<br>• Cwmni yswiriant | 2 |

## 3. Ymdrin ag ymatebion

3.1 Darparwyd ffurflen ymateb safonol er hwylustod. Fodd bynnag, os na ddefnyddiodd ymatebwyr y ffurflen, mae sylwadau wedi'u priodoli i'r cwestiwn mwyaf priodol.

3.2 Os nad yw ymatebwyr wedi ateb gan ddefnyddio'r ymatebion safonol a gynigiwyd ond eu bod wedi nodi safbwynt clir yn eu hateb, mae'r ymateb hwnnw wedi'i bennu iddynt yn y dadansoddiad ystadegol. Er enghraifft, os defnyddiodd ymatebydd yr ymadrodd ‘Rwy'n cefnogi'r cynnig’ nodwyd ei fod wedi rhoi ateb cadarnhaol. Os nad oedd yr ymateb yn glir, nodwyd bod yr atebion yn perthyn i'r categori ‘dim ymateb’ yn y dadansoddiad ystadegol gyda'r ymatebion yn cael eu cynnwys yn y crynodeb o'r ymatebion.

## 4. Rhan 1

| **Cwestiwn 1.** | **Ydw%** | **Nac ydw%** | **Ansicr %** | **Dim ymateb** |
|---|---|---|---|---|
| A ydych yn cytuno y dylid bellach gynnwys gwestai, hosteli a thai preswyl, fel y cyfeirir atynt yn y diffiniad o ystafell at ddibenion preswyl yn rheoliad 2, yn rheoliad 7(4) o Reoliadau Adeiladu 2010, ac felly eu gwneud yn ddarostyngedig i'r gwaharddiad? Os nad ydych yn cytuno, rhowch eich rhesymau a thystiolaeth. | 61 | 8 | 4 | 27 |

Roedd y mwyafrif o'r rhai a ymatebodd (61%) yn cytuno â'r cynigion i ymestyn cwmpas rheoliad 7 (4) i gynnwys ystafelloedd mewn hosteli, gwestai a thai preswyl.

Mae'r themâu a'r safbwyntiau cyffredin gan yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno fel a ganlyn:

Ar y cyfan, mae gan y mathau o adeiladau dan sylw lefelau ychwanegol o ddiogelwch drwy ofynion rheoli a dylunio, a gallai gwaharddiad cyffredinol ar ddeunyddiau nad ydynt yn cael eu hystyried yn rhai anllosgadwy arwain at waith cynllunio diofal. Mae sylwadau hefyd yn ymwneud â'r ffaith bod cyfraddau marwolaethau yn uwch mewn grwpiau diben eraill.

Roedd sylwadau o blaid y cynigion yn ymwneud â lefelau is o waith rheoli na'r disgwyl / nag a ystyriwyd wrth ddylunio'r adeilad, preswylwyr heb fod yn gyfarwydd â'u hamgylchedd, ac amseroedd/gweithdrefnau gwacáu.

**Ymateb y Llywodraeth i Gwestiwn 1**
Roedd y mwyafrif o'r rhai a ymatebodd o blaid ein cynigion i gynnwys gwestai, hosteli a thai preswyl yng ngofynion Rheoliad 7 o Reoliadau Adeiladu 2010. Byddwn felly, yn dod a gwestai, hosteli a thai preswyl o fewn cwmpas y gwaharddiad, sy'n golygu y bydd angen i waliau allanol yr adeiladau hyn fodloni'r un gofynion perfformiad (A2s1,d0 neu'n well).

| Cwestiwn 2. | Dylid% | Na ddylid% | Ansicr % | Dim ymateb |
|---|---|---|---|---|
| A ddylid cynnwys unrhyw fathau eraill o adeilad o fewn cwmpas y gwaharddiad? Rhowch fanylion a thystiolaeth i ategu'ch ateb. | 25 | 32 | 10 | 33 |

O blith y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn, roedd mwyafrif bach o blaid (32%) peidio â chynnwys unrhyw fathau eraill o adeiladau o fewn cwmpas y gwaharddiad.

Roedd sylwadau o blaid ymestyn ymhellach y mathau o adeiladau y dylid eu cynnwys yn rheoliad 7(4) o Reoliadau Adeiladu 2010 fel a ganlyn:

Adeiladau a feddiennir gan gryn nifer o bobl sy'n anghyfarwydd â'r adeilad h.y. ymgynnull / manwerthu cymhleth. Unrhyw adeilad sy'n cyrraedd trothwyon uchder y diffiniad o adeilad uchel iawn (heb ystyried unrhyw unedau preswyl), trothwy is o 11m ar gyfer pob adeilad, gwaharddiad ar ddefnyddio deunyddiau llosgadwy ar adeiladau yn dibynnu ar y math o feddiannaeth (h.y. meddianwyr sy'n agored i niwed / ysgolion / lleoliadau adloniant).

Codwyd pryderon ynghylch gallu'r diwydiant i reoli risgiau adeiladau yn ystod y cam meddiannu gydag ymatebwyr yn nodi y byddai cyfyngiadau pellach ar ddeunyddiau, felly, yn fuddiol.

Ailadroddodd ymatebion eraill sylwad yn ymwneud ag adeiladu waliau allanol anllosgadwy ym mhob adeilad ysgol, a phryderon ynghylch adeiladau amhreswyl y mae angen lloriau adrannu arnynt dim ond pan fyddant dros 30m (h.y. meintiau adrannau mawr o bosibl heb unrhyw ofyniad ar gyfer rhwystrau ceudod ac ati).

Galwadau pellach i gynnwys cartrefi gofal ac ysbytai yn seiliedig ar y ffaith bod y preswylwyr yn agored iawn i niwed ar allu o ddianc yn annibynnol, yn ogystal ag adeiladau a feddiennir am gyfnodau hir – h.y. swyddfeydd.

**Ymateb y Llywodraeth i Gwestiwn 2**
Er i'r sylwadau roi enghreifftiau o fathau eraill o adeiladau y dylid eu cynnwys yn y gwaharddiad, ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth i ategu'r honiadau. Felly, ni chynigir y dylid cynnwys unrhyw fathau eraill o adeiladau yn y gwaharddiad ar hyn o bryd.

## Pennu terfynau ar ddeunyddiau llosgadwy ar adeiladau penodol 11-18m

| Cwestiwn 3. | Ydw% | Nac ydw% | Ansicr % | Dim ymateb |
|---|---|---|---|---|
| A ydych yn cytuno y dylai'r diwygiad i Ddogfen Gymeradwy B er mwyn pennu terfynau ar gynhyrchion llosgadwy penodol gael ei bennu ar gyfer adeiladau sydd â llawr 11-18m (gweler Diagram C6, Atodiad C yn Nogfen Gymeradwy B Cyf 2)? A oes trothwy is amgen o ran uchder y dylid ei ystyried? Rhowch dystiolaeth. | 55 | 13 | 8 | 25 |

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr (55%) o blaid y diwygiadau arfaethedig, i gyflwyno trothwy uchder is ar gyfer y defnydd o gynhyrchion llosgadwy.

Ymhlith rhai o'r pwyntiau allweddol a godwyd gan yr ymatebwyr roedd:

- Yr angen am ragor o eglurder ynglŷn â chwmpas arfaethedig y gwaharddiad.
- Ystyriaethau o ran y defnydd o adeiladau gan gynnwys gwestai, swyddfeydd, meddianwyr sy'n agored i niwed - ysgolion, cartrefi gofal, lleoliadau adloniant.
- Lleisiwyd pryderon ynghylch addasrwydd profion BS 8414 i ddangos cydymffurfiaeth, a phryderon hirsefydlog ynghylch BS 8414 a BR135 nad ymdriniwyd â nhw.
- Argymhellion ynghylch terfyn is yn dibynnu ar risgiau mewn adeilad: symudedd / strategaeth ddianc (aros yn y fan a'r lle) a hylosgedd strwythur.
- Pryderon ynghylch addasrwydd dulliau BRE 135.
- Awgrymiadau ynglŷn ag ystyriaethau ar gyfer adeiladau o unrhyw uchder ac ymestyn y cwmpas y tu hwnt i ddefnydd preswyl.
- Codwyd pryderon ynghylch dryswch, effeithiau cymdeithasol newid pellach a gallu'r farchnad gynhyrchion i addasu.
- Canlyniadau anfwriadol adeiladau presennol a'r effaith ar yswiriant a gwerth asedau o ganlyniad i hynny.
- Nid uchder ddylai fod yr unig ffactor.
- Codwyd pryderon ynghylch y cyfeiriad at y term “hylosgedd cyfyngedig” yn y fersiwn bresennol o Ddogfen Gymeradwy B.

**Ymateb y Llywodraeth i Gwestiwn 3**
Byddwn yn diwygio’r canllawiau yn Nogfen Gymeradwy B er mwyn pennu terfynau ar hylosgedd deunyddiau a ddefnyddir mewn waliau adeiladau sy’n cynnwys pwrpas “preswyl” (grwpiau pwrpas 1 a 2) sydd â llawr 11-18m o uchder Fel rhan o'r dull gweithredu hwn, byddem hefyd yn diwygio rheoliad 6(1)(c) o Reoliadau Adeiladu 2010 o 15m i 11m i leihau uchder yr adeiladau y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â'r gofynion yn B4(1) o Atodlen 1 o’r rheoliadau hynny, pan fydd yr adeilad cyfan yn mynd drwy newid defnydd sylweddol.

## Deunyddiau Cyfansawdd Metel

| Cwestiwn 4. | Ydw% | Nac ydw% | Ansicr % | Dim ymateb |
|---|---|---|---|---|
| A ydych yn cytuno y dylid gwahardd paneli cyfansawdd metel â chraidd polyethylen rhag cael eu defnyddio wrth adeiladu waliau allanol unrhyw adeilad, ni waeth beth fo'i uchder na'i ddiben? Os nad ydych yn cytuno, rhowch dystiolaeth i ategu'ch ateb. | 49 | 14 | 8 | 29 |

Roedd y mwyafrif o'r rhai a ymatebodd yn cytuno (49%) â'r cynnig i wahardd paneli cyfansawdd metel â chraidd polyethylen rhag cael eu defnyddio wrth adeiladu waliau allanol unrhyw adeilad.

Ymhlith y themâu a'r safbwyntiau cyffredin gan yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno neu a oedd yn ansicr roedd y canlynol:

- Mae rhywfaint o ddefnydd yn cael ei wneud o'r deunyddiau hyn o hyd yn y sector masnachol. Gallai gwaharddiad llwyr gael effeithiau / canlyniadau pellach ar gyfer y stoc bresennol (yswiriant ac ati).
- Themâu cyffredin drwy gydol yr ymatebion oedd y galw am waharddiad ar bob cynnyrch llosgadwy, ac na ddylai fod yn gyfyngedig i baneli cyfansawdd metel â chraidd polyethylen yn unig ac, yn arbennig, unrhyw ddeunydd â gwerth caloriffig gros o fwy na 35 MJ/kg.
- Er ei bod yn peri risg is i adeiladau isel, gellir gosod cynhyrchion llosgadwy eraill o hyd ayyb. Pryderon ynghylch gwahardd cynhyrchion penodol ac, ar yr un pryd, ganiatáu i gynhyrchion llosgadwy tebyg gael eu gosod (dylid ystyried barn ar werth caloriffig yn hytrach na math penodol o gynnyrch).
- Dylid penderfynu trin yn yr un modd, a phrofi system gyfan BS 8414 gan y byddai unrhyw beth heblaw hyn yn disgyn yn fyr o argymhellion y Fonesig Judith Hackitt. Dylid cyfundrefn brofi y cytunwyd cynnwys cynhyrchion anllosgadwy sy’n dybiedig i fodloni. Pob system gladin a brofir, ystyriaethau asesiad risg yn hytrach na gwaharddiad llwyr. Adeiladau isel â ffyrdd o ddianc sydd wedi'u dylunio'n well ac felly a risg is.
- Perfformiodd rhai cynhyrchion inswleiddio craidd PIR yn dda mewn profion blaenorol, fodd bynnag, byddent yn cael eu gwahardd yn seiliedig ar waharddiad cyffredinol.

**Ymateb y Llywodraeth i Gwestiwn 4**
Roedd cefnogaeth gref i'r cynnig hwn yn yr ymateb i'r ymgynghoriad. Roedd 49% o blaid y cynnig i wahardd paneli cyfansawdd metel â chraidd polyethylen.

Amlygwyd yr ymatebion y dylid ystyried deunyddiau llosgadwy eraill hefyd o fewn gwaharddiad llwyr, ond mae ymchwil Llywodraeth y DU i risg tân o wahanol ddeunyddiau cladin gan gynnwys deunyddiau cyfansawdd alwminiwm (ACM) â chraidd

polyethylen a ddefnyddiwyd ar Dŵr Grenfell yn dangos mae cynhyrchion â chraidd polyethylen yw'r deunyddiau cladin mwyaf peryglus o bell, o'r rhai a chafwyd eu profi.

Rydym yn ystyried bod y defnydd o gynhyrchion â chraidd polyethylen fel deunyddiau cladin yn peri risg tân mor sylweddol fel bod cyfiawnhad dros waharddiad llwyr ar eu defnydd ar unrhyw adeiladau, waeth beth fo'u taldra neu bwrpas.

Yn unol â'r cynnig, byddwn yn cyflwyno gwaharddiad llwyr ar y defnydd o ddeunyddiau cyfansawdd metel â chraidd polyethylen heb ei addasu mewn ac ar waliau allanol unrhyw adeilad waeth beth fo'i uchder na'r defnydd a wneir ohono. Bydd y gwaharddiad hwn yn gwahardd deunyddiau o'r fath rhag cael eu defnyddio ar adeiladau newydd ac adeiladau sy'n cael eu hadnewyddu.

Bydd y gwaharddiad llwyr hwn yn gymwys i ddeunyddiau cyfansawdd metel â chraidd polyethylen, sef y math o gladin a ddefnyddiwyd ar Dŵr Grenfell.

| **Cwestiwn 5.** | **Ydw%** | **Nac ydw%** | **Ansicr %** | **Dim ymateb** |
|---|---|---|---|---|
| Pe bai'r defnydd a wneir ohonynt yn cael ei gyfyngu, a ydych yn cytuno â'r diffiniad arfaethedig? Rhowch dystiolaeth i ategu'ch ateb. | 33 | 8 | 24 | 35 |

Roedd yr ymatebion yn amrywio. Fodd bynnag, roedd y mwyafrif (33%) o'r rhai a ymatebodd yn cytuno â'r diffiniad arfaethedig.

Mae'r themâu a'r safbwyntiau cyffredin gan yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno fel a ganlyn:

- Ystyriwyd y gallai'r meini prawf trwch o ddim mwy na 10mm ganiatáu paneli mwy trwchus a allai fod â chynnwys caloriffig uwch. Dylid ystyried disgrifiadau mwy cyffredinol yn hytrach na chyfeiriadau penodol at bolyethylen er mwyn sicrhau na chaiff cynnyrch risg uchel tebyg ei ddefnyddio yn ei le:

  "Nid ydym yn cytuno y dylid cyfyngu'r diffiniad o baneli cyfansawdd metel i baneli neu daflenni sydd â thrwch o 'ddim mwy na 10mm' - mae’r cyfyngiad hwn yn anghyson ac yn ddiangen yn eithrio paneli mwy trwchus o'r un cyfansoddiad gyda llwythi tanwydd cymesur uwch."

  "Nid yw'n glir pam mae'r diffiniad yn cyfyngu trwch y panel i ddim mwy na 10mm. Er y gallai hyn fod yn adlewyrchu mesuriadau nodweddiadol panel ACM, mae'n ymddangos ei fod yn creu bwlch lle byddai ACM dros 10mm o drwch â chraidd llosgadwy iawn yn dal i gael ei ganiatáu."

  "Mae angen bod yn ofalus iawn wrth ddiffinio cynhyrchion er mwyn sicrhau nad oes lle i ddod â nodweddion eraill sy'n perfformio'r un mor wael yn eu lle. Ni ddylai unrhyw newidiadau arwain at ganlyniadau anfwriadol sy'n niweidiol mewn meysydd eraill o feini prawf perfformiad adeiladu."

- Ystyriwyd ymatebwyr os dylai'r gwaharddiad fod yn berthnasol beth bynnag fo'r trwch.

- Pryderon ynghylch cymysgu systemau a chynhyrchion wedi'u gwneud o ddeunyddiau metel cyfansawdd / HPL ac y gall rhai fodloni meini prawf profi.

- Pwyntiau a sylwadau eraill i'w nodi: dylid nodi cyfyngiadau ar ddefnydd yn benodol ar wybodaeth am gynhyrchion / data / taflenni manyleb.

**Ymateb y Llywodraeth i Gwestiwn 5**
Roedd y rhai a ymatebodd yn cefnogi'r diffiniad arfaethedig o ddeunydd cyfansawdd metel. Byddwn yn diwygio’r rheoliadau yn unol â’r diffiniad arfaethedig.

## Atodion

| **Cwestiwn 6.** | **Ydw%** | **Nac ydw%** | **Ansicr %** | **Dim ymateb** |
|---|---|---|---|---|
| A ydych yn cytuno bod angen i gynhyrchion cysgodi rhag yr haul gyrraedd dosbarth A2-s1, d0 neu A1? Os nad ydych yn cytuno, rhowch eich rhesymau a thystiolaeth. | 55 | 0 | 12 | 33 |

Roedd y mwyafrif (55%) o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn cytuno bod angen i gynhyrchion cysgodi rhag yr haul gyrraedd dosbarth A2-s1, d0 neu A1. Nid oedd yr un o'r ymatebion yn anghytuno.

Cafwyd rhai sylwadau ychwanegol mewn perthynas â'r cwestiwn, megis:

- Mae risg y byddwn yn colli golwg ar y broblem ac yn gwahardd unrhyw beth nad yw'n cyd-fynd â pharamedrau penodol.

- Mae angen arweiniad pellach ynghylch a oes angen i ffitiadau a gosodiadau dyfeisiau cysgodi rhag yr haul gyrraedd dosbarth A2-s1, d0 neu A1 hefyd.

- Bydd angen eglurder ynghylch a fydd angen i gynhyrchion cysgodi rhag yr haul ar ffenestri'r to, sydd yn eu tro wedi'u gosod ar y to â goleddf o fwy na 70 gradd, gyrraedd dosbarth A2-s1, d0 neu A1 fel y cynigir.

- Mae'n bosibl y bydd achosion lle mae cynhyrchion cysgodi rhag yr haul yn amlswyddogaethol ac yn cynnwys cynnyrch wedi'i wneud o wydr laminedig, er enghraifft cynnyrch ynni adnewyddadwy.

| Cwestiwn 7. | Ydw% | Nac ydw% | Ansicr % | Dim ymateb |
|---|---|---|---|---|
| A ydych yn cytuno â'r diffiniad arfaethedig o gynhyrchion cysgodi rhag yr haul? Os nad ydych yn cytuno, pa ddiffiniad arall y byddech yn ei gynnig a pham? | 53 | 2 | 8 | 37 |

Roedd y mwyafrif (53%) o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn cytuno â'r diffiniad arfaethedig o gynhyrchion cysgodi rhag yr haul.

Nododd yr ymatebydd a roddodd ateb negyddol fod cynhyrchion cysgodi rhag yr haul hefyd yn effeithiol o ran rheoli golau er mwyn darparu lle do dan gweledol gyfforddus. Dylid ystyried ychwanegu hyn at y diffiniad.

Cyflwynodd ymatebwyr eraill sylwadau hefyd mewn perthynas â newidiadau i'r diffiniad, megis:

- Ystyriwch 'ddyfais a gysylltir wrth wal allanol neu a osodir yn agos at wal allanol er mwyn lleihau enillion gwres mewn adeilad ac o'i amgylch.' Byddai hyn yn cwmpasu cynhyrchion cysgodi rhag yr haul llosgadwy eraill a allai ei gwneud yn haws i dân allanol ledaenu ar yr adeilad neu i mewn i'r adeilad.

- Boed y geiriad yn ddigon cadarn er mwyn sicrhau bod cynhyrchion y bwriedir iddynt gysgodi rhan allanol o adeilad, megis balconi, yn bennaf, yn hytrach na "lleihau enillion gwres yn yr adeilad" yn cael eu cwmpasu gan y diffiniad hwn hefyd.

Tynnodd sylw arall sylw at y ffaith bod y diffiniad yn Lloegr ychydig yn wahanol.

| Cwestiwn 8. | Ydw% | Nac ydw% | Ansicr % | Dim ymateb |
|---|---|---|---|---|
| A ydych yn cytuno â'n cynnig i esemptio cysgodlenni ar lefel y ddaear? Os nad ydych yn cytuno, rhowch eich rhesymau a thystiolaeth. | 37 | 18 | 10 | 35 |

Roedd y mwyafrif (37%) o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn cytuno â'n cynnig i esemptio cysgodlenni ar lefel y ddaear.

O blith yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno, roedd y rhesymau cyffredinol a roddwyd yn ymwneud â'r ffaith bod risg o hyd gan y gallai gael ei defnyddio fel cysgodfan ymysgu, y gallai fod llwyth tân oddi tani megis byrddau, cynwysyddion a biniau sbwriel a allai gael eu fandaleiddio. Gall fod risg y bydd tân yn lledaenu'n fertigol, yn arbennig os byddant wedi'u lleoli yn agos at falconi neu o dan ffenestri y gellir eu hagor.

O blith yr ymatebwyr a roddodd ateb cadarnhaol, awgrymodd rhai amodau ychwanegol ar gyfer esemptio cysgodlenni megis y dylent fod wedi'u gwneud o ddeunydd atal fflamiau neu ddeunydd Dosbarth 0.

| **Cwestiwn 9.** | **Oes%** | **Nac oes%** | **Ansicr %** | **Dim ymateb** |
|---|---|---|---|---|
| A oes unrhyw gydrannau ychwanegol eraill a ddefnyddir fel atodion i waliau allanol y dylid eu cynnwys yn y gwaharddiad fel y'u diffiniwyd yn rheoliad 2(6)(b)? Os oes, pa gydrannau ychwanegol y dylid eu cynnwys a pham? | 22 | 22 | 17 | 39 |

O blith yr ymatebwyr a roddodd ateb cadarnhaol neu ateb negyddol i'r cwestiwn hwn, roedd hanner o'r farn bod cydrannau ychwanegol a ddefnyddir fel atodion i waliau allanol y dylid eu cynnwys yn y gwaharddiad.

Roedd yr awgrymiadau ar gyfer cydrannau ychwanegol yn cynnwys y canlynol:

- Arwyddion megis arwyddion hysbysebu, eitemau hysbysebu, baneri, estyll cyfansawdd neu bren, sgriniau hysbysebu electronig.
- Nodweddion goleuo addurnol allanol.
- Waliau gwyrdd/byw.
- Dylid ystyried bod canopïau yn ‘atodyn penodedig’ mewn ffordd debyg i falconïau.

Cafwyd rhai awgrymiadau eraill hefyd mewn perthynas ag esemptiadau a ystyriwyd yng Nghwestiwn 11.

**Ymateb y Llywodraeth i Gwestiynau 6,7,8 a 9**
Ar ôl ystyriaeth bellach byddwn yn ceisio rhoi rhagor o eglurder ar y diffiniad o gynhyrchion cysgodi rhag yr haul eu cynnwys yn gynigion yr ymgynghoriad.

Byddwn yn diwygio’r diffiniad o “Dyfais a gysylltir wrth wal allanol neu a osodir yn agos at wal allanol er mwyn lleihau enillion gwres mewn adeilad” i “*Dyfais a gysylltir wrth arwyneb allanol wal allanol er mwyn lleihau enillion gwres mewn adeilad drwy ei gysgodi rhag golau'r haul neu drwy allwyro golau'r haul.”* Mae'r newid hwn yn egluro ymhellach effaith cynhyrchion cysgodi rhag yr haul gan gynnwys drwy “allwyro golau'r haul”. Mae’r diffiniad hwn hefyd yn cyfateb i'r diffiniad a ddefnyddir yn Lloegr a bydd yn helpu cysondeb wrth ddefnyddio cynhyrchion o’r fath.

Amlygodd ymateb hefyd yr angen am eglurder ar ffitiadau a gosodiadau dyfeisiau cysgodi rhag yr haul. Bydd gofynion Dosbarth A1 neu A2-s1, d0 yn berthnasol i lenni a slatiau dyfeisiau cysgodi rhag yr haul, sy'n sicrhau nad oes angen i gydran lai sy'n caniatáu gweithredu dyfeisiau deinamig cysgodi rhag yr haul gyda llen anllosgadwy i fodloni'r gofynion perfformiad. Mae hyn yn galluogi'r defnydd o gynhyrchion mwy effeithlon heb gyfaddawdu diogelwch ac mae'n gyson â'r dull a ddefnyddir yn Lloegr.

Roedd yr ymatebion hefyd yn cefnogi ein cynigion i esemptio cysgodlenni ar lefel y ddaear. Mae cysgodlenni ôl-dynadwy yn aml yn cael eu defnyddio ar lefel y ddaear ar gyfer blaenau siopau neu at ddibenion tebyg. Mae risgiau fel y'u nodir mewn rhai sylwadau. Fodd bynnag, ystyrir bod y risg sy'n gysylltiedig â'r rhain yn gyfyngedig gan

na fyddant yn ymestyn y tu hwnt i lefel y ddaear ac y bydd angen i wal allanol adeilad perthnasol fodloni gofynion y gwaharddiad.

Rydym yn ddiolchgar am yr awgrymiadau ar gyfer cydrannau ychwanegol a ddefnyddir fel atodion i waliau allanol y gellid eu cynnwys yn y gwaharddiad. Fodd bynnag, nid ydym yn bwriadu cynnwys yr awgrymiadau ychwanegol hyn i'w henwi'n benodol ar yr adeg hon.

Er na fydd y cydrannau hyn yn cael eu henwi'n benodol, dylai pawb sy'n gyfrifol am waith adeiladu gan gynnwys perchenogion adeiladau, asiantau, dylunwyr, adeiladwyr a gosodwyr, nodi bod yn rhaid bodloni gofynion swyddogaethol y Rheoliadau Adeiladu 2010 ar gyfer unrhyw waith adeiladu. Dylai dylunwyr ystyried y ffactorau lu a all ddylanwadu ar ledaeniad tân wrth benderfynu a fydd y gofynion swyddogaethol yn cael eu bodloni gan eu dyluniad.

Ar y cyfan, roedd yr ymatebion yn cefnogi ein cynigion ynglŷn ag atodion ac rydym yn dal i fod o'r farn y gallai cynhyrchion cysgodi rhag yr haul, sydd wedi'u gwneud o ddeunyddiau llosgadwy, ar waliau allanol adeilad greu llwybr i dân ledaenu. Felly, byddwn yn ceisio rhoi'r gwaharddiad ar ddefnyddio deunyddiau llosgadwy ar waith er mwyn ei gwneud yn ofynnol i len neu estyll dyfeisiau cysgodi rhag yr haul ar adeilad perthnasol (fel y'i diffinnir yn rheoliad 7(4)(a)) o Reoliadau Adeiladu 2010 gyrraedd dosbarth A1 neu A2-s1, d0.

## Eithriadau

| **Cwestiwn 10.** | **Ydw%** | **Nac ydw%** | **Ansicr %** | **Dim ymateb** |
|---|---|---|---|---|
| A ydych yn cytuno y dylid esemptio ceblau ffeibr optig rhag y gwaharddiad? Os nad ydych yn cytuno, rhowch eich rhesymau. | 47 | 2 | 16 | 35 |

O blith yr ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, roedd y mwyafrif helaeth (47%) yn cytuno â'n cynnig i esemptio ceblau ffeibr optig rhag y gwaharddiad.

| **Cwestiwn 11** |
|---|
| Pa gydrannau, os oes rhai, na ddylid eu cynnwys yn y rhestr o esemptiadau yn rheoliad 7(3) mwyach, yn eich barn chi, a pham? |

Awgrymodd y rhai a ymatebodd gydrannau megis y canlynol:

- Gosodiadau trydanol.
- Fframiau drysau a fframiau ffenestri, gan fod opsiynau anllosgadwy ar gyfer y rhain.
- Pilenni. Mae opsiynau amgen anllosgadwy bellach ar gael.
- Unrhyw gydran y mae opsiwn amgen anllosgadwy addas ar gael yn hawdd ar ei chyfer.

- Hambyrddau ceudod, mae opsiynau ar gyfer hambyrddau ceudod bellach ar gael ar y farchnad sy'n cyrraedd dosbarth A1/A2-s1,d0.
- Systemau waliau allanol â dalen allanol o waith brics neu goncrit wedi'i gastio'n barod a fu'n destun profion perthnasol ar raddfa fawr ac sydd â rhwystrau ceudod wrth agorfeydd a llinellau adrannu.
- Bydd systemau sy'n bodloni gofynion profion a gefnogir gan yswiriwr wedi dangos eu bod yn cyfyngu ar ledaeniad tân a thwf tân.
- Strwythur perimedr unionsyth o ddeunydd inswleiddio ar doeau â pharapetau.
- Gellid tynnu seliau, gasgedi, cysylltwyr (sgriwiau, byllt ac ati), selyddion a rhodiau 'backer' oddi ar y rhestr. Byddai hefyd yn dileu unrhyw amwysedd o ran a yw eitemau megis EPDM ffenestri yn selydd neu'n bilen.

Roedd sylwadau cyffredinol eraill yn cynnwys bod yr ymatebydd yn anghytuno â'r gwaharddiad a'r rhestr am fod dull rhagnodol yn beryglus, yn agored i'w ddehongli ac yn aneffeithiol a bod angen ei adolygu'n gyson er mwyn darparu ar gyfer datblygu cynhyrchion, arloesedd a newidiadau mewn dulliau adeiladu.

Awgrymodd ymateb arall y dylai fod cyfeiriad rywle yn y canllawiau at y ffaith bod deunyddiau neu gydrannau sy'n cynnwys isoseianadau yn yr un modd â chreiddiau polyethylen mewn deunydd inswleiddio allanol neu baneli cladin inswleiddio.

**Cwestiwn 12**

Pa gydrannau ychwanegol, os oes rhai, y dylid eu cynnwys yn y rhestr o esemptiadau yn rheoliad 7(3), a pham?

Awgrymodd y rhai a ymatebodd gydrannau megis y canlynol:

- Nwyddau gwaredu dŵr glaw, estyllod dŵr a soffitiau.

- Darnau gwahanu plastig a ddefnyddir i ddal y deunydd atgyfnerthu yn y lle cywir wrth gastio ffasadau concrit. Ni fyddai'r rhain yn cyfrannu at ledaeniad tân ond maent wedi'u gwahardd yn dechnegol ar hyn o bryd. Byddai'n fwy rhesymegol caniatáu mân gydrannau kg/m2 penodol nad ydynt yn cyrraedd dosbarth A2-s1, d0 nac A1.

- Dylid ymestyn yr eithriad ar gyfer pilenni i gynnwys:

  a. Haenau gwrth-ddŵr a osodir ar do gwastad, balconi neu atodyn penodedig sy'n dod yn rhan o wal allanol i lefel nad yw'n llai na 150mm uwchlaw'r system do orffenedig gyfagos neu haen llawr lorweddol uchaf balconi yn unol â BS 6229:2018 Toeau gwastad â gorchuddion gwrth-ddŵr hyblyg a gynhelir yn barhaus.

  b. Haenau gwrth-ddŵr a osodir ar do gwastad, balconi neu atodyn penodedig sy'n dod yn rhan o wal allanol sy'n gyfagos i le mewn adeilad y mae gan bobl fynediad iddo dim ond at ddibenion gwneud gwaith atgyweirio neu gynnal a chadw (e.e. gor-rediadau lifft neu risiau), neu fan allanol (e.e. muriau canllaw), i lefel nad yw'n llai na'r uchder gwarchod o 1,100mm

uwchlaw'r system do orffenedig gyfagos neu haen llawr lorweddol uchaf balconi.

- Dylid caniatáu systemau sydd wedi bodloni gofynion S 8414 yn unol â BR135.

Awgrymodd ymateb arall fod angen eglurder fel bod gwydr laminedig yn cael ei gynnwys yn y rhestr o esemptiadau pan gaiff ei ddefnyddio at ddibenion nad ydynt yn cynnwys gweld yn y wal allanol, yn benodol mewn sbandreli, er enghraifft o fewn cysylltfuriau, a hefyd mewn paneli mewnlenwi na ellir gweld trwyddynt ar ffenestri. Gall paneli na ellir gweld trwyddynt gyflawni sawl swyddogaeth – e.e. ynni adnewyddadwy.

**Ymateb y Llywodraeth i Gwestiynau 10,11 a 12**
Mewn perthynas â chydrannau na ddylent fod yn esempt mwyach, ar ôl ystyried yr awgrymiadau, nid ydym yn cynnig y dylid dileu unrhyw esemptiadau ar hyn o bryd. Nodwyd bod rhai cydrannau lle mae opsiynau amgen anllosgadwy ar gael. Fodd bynnag, gwnaethom geisio barn seiliedig ar dystiolaeth a heb hynny nid oedd y risg ychwanegol y byddai tân yn lledaenu ar hyd y wal allanol yn glir.

O ran cydrannau ychwanegol y gellid eu cynnwys yn y rhestr o esemptiadau, rydym hefyd yn bwriadu cynnwys cydrannau sy'n gysylltiedig â dyfais cysgodi rhag yr haul, ac eithrio cydrannau y mae eu prif swyddogaeth yw darparu cysgod neu allwyro golau'r haul fel llen adlen neu slatiau. Bydd hyn yn sicrhau bod y rheoliadau'n glir ar ba ddarpariaethau sy'n berthnasol i'r cynhyrchion cysgodi rhag yr haul a'u cydrannau.

Roedd y mwyafrif helaeth yn cytuno â'n cynnig i esemptio ceblau ffibr optig rhag y gwaharddiad, felly, byddwn yn symud ymlaen i esemptio ceblau ffibr optig a chydrannau sy'n gysylltiedig â dyfais cysgodi rhag yr haul fel y crybwyllwyd uchod.

## Gwydr laminedig

| Cwestiwn 13. | Ydw% | Nac ydw% | Ansicr % | Dim ymateb |
|---|---|---|---|---|
| A ydych yn cytuno y dylai gwydr laminedig a ddefnyddir i adeiladu balconïau barhau i gyrraedd dosbarthiad A2-s1, d0 neu A1? Rhowch dystiolaeth i ategu'ch ateb lle y bo modd a thrafodwch ddeunyddiau neu gynhyrchion penodol. | 33 | 10 | 20 | 37 |

Roedd y mwyafrif (33%) o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn cytuno y dylai gwydr laminedig a ddefnyddir i adeiladu balconïau barhau i gyrraedd dosbarthiad A2-s1, d0 neu A1.

Roedd y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

- Nid oes unrhyw dystiolaeth bod paneli o wydr laminedig mewn dyluniadau balconïau wedi achosi problem o ran diogelwch tân nac ychwanegu at broblem o'r fath.

- Rydym o'r farn bod gwydr laminedig yn peri risg isel o dân yn enwedig mewn balwstradau balconïau.
- Mae'n llawer gwell defnyddio gwydr laminedig ar falconi na mathau eraill o wydr a allai gyrraedd dosbarthiad A2-si, d0 neu'n well, ond y mae risg iechyd a diogelwch sylweddol yn gysylltiedig â nhw y bydd darnau o wydr yn syrthio o'r balconi os caiff ei dorri.
- Cadernid, megis a yw mathau eraill o wydr megis y rhai a ddefnyddir i adeiladu balconïau yn ddigon cadarn i wrthsefyll y tymereddau a geir mewn cyfluniad allanol.
- Mae anghysondeb o ran gwahardd ei ddefnyddio mewn balwstradau balconïau ond heb reoli ffenestri a drysau cyfagos.
- Mae risgiau diogelwch sylweddol yn gysylltiedig â defnyddio gwydr heb ei lamineiddio ar falconïau oherwydd gallai darnau syrthio o uchder a gallai amddiffynfeydd ymyl gael eu colli yn sydyn.

Ar y cyfan, roedd y rhai a oedd yn cytuno o'r farn y gallai gwydr laminedig beri risg tân.

**Ymateb y Llywodraeth i Gwestiwn 13**
Roedd y mwyafrif yn cytuno y dylai gwydr laminedig a ddefnyddir i adeiladu balconïau barhau i gyrraedd dosbarthiad A2-s1, d0 neu A1. Felly, byddwn yn parhau i'w gwneud yn ofynnol i wydr laminedig gyrraedd y dosbarthiad hwn pan gaiff ei ddefnyddio mewn balconi. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i adolygu hyn ac rydym yn monitro ymchwil Llywodraeth y DU i'r defnydd a wneir o wydr laminedig mewn balconïau a byddwn yn ystyried y dystiolaeth er mwyn inni allu gwneud penderfyniad seiliedig ar wybodaeth ynghylch p'un a ddylid esemptio gwydr laminedig ai peidio (bydd unrhyw newidiadau arfaethedig yn y dyfodol yn destun ymgynghoriad cyhoeddus).

## Cydrannau Toeau

| Cwestiwn 14. | Ydw% | Nac ydw% | Ansicr % | Dim ymateb |
|---|---|---|---|---|
| A ydych yn cytuno bod angen rhagor o eglurder yn y rheoliadau neu yn Nogfen Gymeradwy B nad oes angen i bilenni to gyrraedd dosbarthiad A2-s1, d0 neu ddosbarthiad uwch pan gânt eu defnyddio fel rhan o do sy'n cysylltu â wal allanol? Os nad ydych yn cytuno, rhowch esboniad ynghyd â thystiolaeth i ategu'ch ateb lle y bo modd a thrafodwch ddeunyddiau neu gynhyrchion penodol. | 57 | 4 | 10 | 29 |

O blith yr ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, roedd y mwyafrif helaeth yn cytuno bod angen eglurder yn y rheoliadau neu yn Nogfen Gymeradwy B nad oes angen i bilenni to gyrraedd dosbarthiad A2-s1, d0 neu ddosbarthiad uwch pan gânt eu defnyddio fel rhan o do sy'n cysylltu â wal allanol.

Awgrymodd llawer o ymatebwyr fod angen eglurder ac awgrymodd rhai gwelliannau i ganllawiau megis y sylwadau canlynol:

- Dylid aralleirio Dogfen Gymeradwy B  er mwyn ystyried *BS 6229:2018 Toeau gwastad â gorchuddion gwrth-ddŵr a gynhelir yn barhaus. Cod ymarfer*'.
- Ystyriwch gyfyngu'r esemptiad hwn i'r hyn sy'n ddigonol i ddangos cydymffurfiaeth â gofynion swyddogaethol Rhan C2 o'r Rheoliadau Adeiladu, megis drwy ragnodi hyd at ba uchder y gellir defnyddio pilenni to mewn strwythur unionsyth neu strwythur tebyg.

Fodd bynnag, awgrymodd rhai ymatebion nad oes angen rhagor o eglurder.

**Ymateb y Llywodraeth i Gwestiwn 14**
Roedd y mwyafrif yn cytuno bod angen rhagor o eglurder. Mae cynllun y cysylltle rhwng wal allanol a tho yn aml yn golygu bod angen i'r pilenni a ddefnyddir wrth adeiladu'r to ymestyn i mewn i'r wal allanol gyda'r nod o atal dŵr rhag mynd i mewn.

Felly, byddwn yn nodi'n glir nad oes angen i bilenni to gyrraedd dosbarthiad A2-si, d0 neu ddosbarthiad uwch pan gânt eu defnyddio fel rhan o do sy'n cysylltu â wal allanol yng nghanllawiau Dogfen Gymeradwy B.

## Deunyddiau islaw lefel y ddaear

| Cwestiwn 15. | Ydw% | Nac ydw% | Ansicr % | Dim ymateb |
|---|---|---|---|---|
| A ydych yn cytuno â'r cynnig i ehangu'r esemptiad i ddefnyddio  deunyddiau gwrth-ddŵr ac inswleiddio o islaw lefel y ddaear hyd at 300mm uwchlaw lefel y ddaear? Os cytunwch, pa amodau eraill y dylid eu gosod ar y defnydd a wneir ohonynt, os o gwbl? | 38 | 12 | 16 | 34 |

O blith yr ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, roedd y mwyafrif yn cytuno â'r cynnig i ehangu'r esemptiad i ddefnyddio deunyddiau gwrth-ddŵr ac inswleiddio o islaw lefel y ddaear hyd at 300mm uwchlaw lefel y ddaear.

Gwnaeth yr ymatebwyr hynny a oedd yn anghytuno y sylwadau canlynol:

- Mae deunyddiau inswleiddio anllosgadwy y gellir eu defnyddio islaw lefel y ddaear a hyd at 300m uwchlaw lefel y ddaear.  At hynny, rydym yn pryderu y gallai caniatáu i gynhyrchion inswleiddio llosgadwy gael eu defnyddio ar waliau allanol adeiladau sy'n ddarostyngedig i'r gwaharddiad beri dryswch diangen.

- Ni ddylai'r cynnyrch fod yn esempt gan y gallai gynnwys deunydd llosgadwy. Dylai'r diwydiant ddarparu cynhyrchion inswleiddio anllosgadwy sy'n atal dŵr rhag dod i mewn i'r adeilad yn ogystal â'i inswleiddio.

**Ymateb y Llywodraeth i Gwestiwn 15**
Mae deunyddiau inswleiddio a gwrth-ddŵr a ddefnyddir wrth adeiladu waliau allanol islaw lefel y ddaear yn esempt rhag gofynion y gwaharddiad. Y rheswm dros hyn yw bod angen i'r cynhyrchion fod yn rhai gwrth-ddŵr ac nad yw deunyddiau anllosgadwy, fel arfer, yn gallu atal dŵr na lleithder rhag treiddio i mewn i'r waliau allanol.

Roedd y mwyafrif yn cytuno a'r cynnig i ehangu'r esemptiad. Felly, byddwn yn esemptio deunyddiau inswleiddio a gwrth-ddŵr hyd at 300mm uwchlaw lefel y ddaear rhag y gwaharddiad.

## Profi Lloriau

| **Cwestiwn 16.** | **Ydw%** | **Nac ydw%** | **Ansicr %** | **Dim ymateb** |
|---|---|---|---|---|
| A ydych yn cytuno â'r cynnig i ehangu'r dosbarthiadau sy'n angenrheidiol ar gyfer deunyddiau a ddefnyddir yn llorweddol i gynnwys Dosbarth A2fl-s1 ac A1fl? Os nad ydych yn cytuno, esboniwch pam a rhowch dystiolaeth lle y bo modd. | 42 | 10 | 16 | 32 |

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr (42%) yn cytuno â'r cynnig i ehangu'r dosbarthiadau sy'n angenrheidiol ar gyfer deunyddiau a ddefnyddir yn llorweddol i gynnwys Dosbarth A42fl-s1 ac A1fl. Roedd 16% o'r ymatebwyr yn ansicr ac roedd 10% o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r cynnig hwn.

Mae'r themâu a'r safbwyntiau cyffredin gan yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cwestiwn hwn fel a ganlyn:

Denodd y cwestiwn hwn sylwadau ar y dull gorau o asesu perfformiad tân lloriau balconïau. Ymhlith y sylwadau a wnaed, mynegodd rhai y farn eu bod yn credu bod gan bilen wrth-ddŵr mewn 'atodyn penodedig' statws mwy beichus o dan AD B o gymharu â statws pilenni mewn waliau allanol. Mae hyn yn golygu na all unrhyw bilen do wrth-ddŵr arferol a gaiff ei hymgorffori mewn balconi wrth ei adeiladu gydymffurfio, gan nad yw'r un cynnyrch sydd ar y farchnad ar hyn o bryd yn cyrraedd dosbarthiad A2-s1, d0. Dim ond fel cydran o adeiladwaith to cyfansawdd a gaiff y cynhyrchion gwrth-ddŵr hyn eu profi fel arfer. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y byddai prawf Broof(t4) ynghyd â soffit ac ymylon A1 neu A2-s1, d0 yn fesur priodol.

Awgrymodd sylw arall y dylai pilenni a osodir yn llorweddol fel Haenau gwrth-ddŵr ar falconi neu atodyn penodedig gael eu cwmpasu gan yr esemptiad ar gyfer 'pilenni' a restrir yn rheoliad 7(3) o Reoliadau Adeiladu 2010.

Ystyriwyd bod angen rhagor o ymchwil i nodi maint y risg sy'n gysylltiedig â lloriau balconïau a pha reolaethau y gallai fod eu hangen, os o gwbl.

**Ymateb y Llywodraeth i Gwestiwn 16**
Mae'r dosbarthiadau A2 ac A1 yn gymwys i ddeunyddiau a brofir yn fertigol fel wal. Mae dosbarthiadau amgen ar gael ar gyfer deunyddiau a brofir yn llorweddol fel llawr, sef Dosbarth A2fl-s1 ac A1fl sydd . Ar hyn o bryd, dim ond yn unol â dosbarthiad A2fl-s1 neu A1fl y caiff sawl cynnyrch a ddefnyddir ar gyfer lloriau balconi eu profi ac, felly, nid ydynt yn bodloni gofynion y gwaharddiad. O dan ddosbarthiad A2fl-s1 ac A1fl mae angen i ddeunyddiau fodloni gofynion llym yn debyg i Ddosbarth A2-s1, d0 neu A1.

Yn yr ymgynghoriad, gwnaethom gynnig ehangu’r rheoliadau 6(3) a (7)(2) o Reoliadau Adeiladu 2010 i ganiatáu defnyddio deunyddiau sy'n cyrraedd Dosbarth A2fl-s1 a Dosbarth A1fl fel rhan o'r gofyniad perfformiad i'w gynnwys mewn atodiadau penodedig pan gânt eu defnyddio'n llorweddol.

Roedd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr yn cytuno â'n cynnig (roedd 42% yn cytuno ac roedd 10% yn anghytuno). Felly, byddwn yn diwygio'r Rheoliadau Adeiladu 2010 fel y cynigir.

# 5. Rhan 2

## Systemau rhybudd i wacáu

| **Cwestiwn 17.** | **Ydw%** | **Nac ydw%** | **Ansicr %** | **Dim ymateb** |
|---|---|---|---|---|
| A ydych yn cytuno â'r cynnig i'w gwneud yn ofynnol darparu systemau rhybudd i wacáu mewn blociau newydd o fflatiau 18m uwchlaw lefel y ddaear neu'n uwch? Os nad ydych yn cytuno, rhowch eich rhesymau a thystiolaeth. | 53 | 2 | 12 | 33 |

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr (53%) yn cytuno y dylid darparu systemau rhybudd i wacáu mewn blociau newydd o fflatiau 18m uwchlaw lefel y ddaear neu'n uwch. Roedd 12% o'r ymatebwyr yn ansicr a dim ond 2% o'r ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig hwn.

| **Cwestiwn 18.** | **Ydw%** | **Nac ydw%** | **Ansicr %** | **Dim ymateb** |
|---|---|---|---|---|
| A ydych yn cytuno â'r trothwy uchder o 18m uwchlaw lefel y ddaear neu'n uwch? Os nad ydych yn cytuno, nodwch drothwy uchder amgen ac unrhyw dystiolaeth. | 31 | 16 | 14 | 39 |

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr (31%) yn cytuno y dylid darparu systemau rhybudd i wacáu mewn blociau newydd o fflatiau 18m uwchlaw lefel y ddaear neu'n uwch. Roedd 14% o'r ymatebwyr yn ansicr ac roedd 16% o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r cynnig hwn.

Roedd y sylwadau gan ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cwestiwn hwn yn cynnwys y dylid ystyried yr uchder o 11m er mwyn helpu criwiau tân gan y bydd unrhyw weithrediadau achub y tu hwnt i'r uchder hwnnw yn gofyn am ddyfais awyr.

| Cwestiwn 19. |
| --- |
| A oes unrhyw fathau eraill o adeiladau y dylid eu cynnwys? Rhowch unrhyw dystiolaeth. |

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylid cynnwys adeiladau sy'n mynd drwy newid defnydd sylweddol i fflatiau hefyd, nid dim ond adeiladau newydd, yn ogystal ag unrhyw adeilad â risg cysgu sydd â strategaeth wacáu sy'n seiliedig ar "aros yn y fan a'r lle".

**Ymateb y Llywodraeth i Gwestiynau 17, 18 a 19**
Roedd y mwyafrif o'r rhai a ymatebodd yn cefnogi'r cynigion i gynnwys systemau rhybudd i wacáu mewn blociau newydd o fflatiau 18m uwchlaw lefel y ddaear neu'n uwch. Roedd cefnogaeth hefyd o blaid cynnwys adeiladau sy'n mynd drwy newid defnydd sylweddol i fflatiau sydd â llawr 11m uwchlaw lefel y ddaear neu'n uwch ond ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth i ategu â'r cais hwn.

Byddwn yn diwygio Dogfen Gymeradwy B i ddarparu canllawiau ar gynnwys systemau rhybudd i wacáu mewn blociau newydd o fflatiau (Grŵp Diben 1(a)) sydd â llawr uchaf o 18m uwchlaw lefel y ddaear neu'n uwch.

## Blychau gwybodaeth diogel

| Cwestiwn 20. | Ydw% | Nac ydw% | Ansicr % | Dim ymateb |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| A ydych yn cytuno â'r cynnig y dylid cyflwyno gofyniad ar gyfer Blychau Gwybodaeth Diogel ym mhob bloc newydd o fflatiau sydd â llawr 11m uwchlaw lefel y ddaear neu'n uwch? Os nad ydych yn cytuno, rhowch eich rhesymau. | 55 | 0 | 10 | 35 |

O blith y rhai a ymatebodd, roedd 55% yn cytuno â'r cynnig ynglŷn â blychau gwybodaeth diogel. Nid oedd yr un ymatebydd yn anghytuno â'r cynnig.

| Cwestiwn 21. | Ydw% | Nac ydw% | Ansicr % | Dim ymateb |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| A ydych yn cytuno â'r trothwy uchder o 11m? Os nad ydych yn cytuno, nodwch drothwy uchder amgen ac unrhyw dystiolaeth. | 49 | 4 | 12 | 35 |

Roedd y mwyafrif (49%) yn cytuno â'r trothwy uchder ar gyfer blychau gwybodaeth diogel. Nododd un ymatebydd y dylai blychau gwybodaeth diogel gael eu hystyried ar sail cynllun yr adeilad, y defnydd a wneir ohono a'r ffordd y mae'n cael ei feddiannu, ac nid dim ond y gofyniad o ran uchder.

| **Cwestiwn 22** |
|---|
| A oes unrhyw fathau eraill o adeiladau y dylid eu cynnwys? Rhowch unrhyw dystiolaeth. |

Nododd rhai ymatebwyr y dylid ymestyn y gofynion ar gyfer blychau gwybodaeth diogel i gynnwys adeiladau sy'n mynd drwy newid defnydd sylweddol i fflatiau sydd â llawr 11m uwchlaw lefel y ddaear neu'n uwch, ac nid dim ond i fflatiau newydd. Cyfeiriwyd at westai a hosteli hefyd.

Roedd yr ymatebion hefyd yn cynnwys ceisiadau i gyflwyno blychau gwybodaeth diogel mewn adeiladau sy'n destun dull peirianneg dân hefyd.

**Ymateb y Llywodraeth i Gwestiynau 20,21 a 22**
Roedd y mwyafrif o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn cefnogi'r cynigion i gyflwyno Blychau Gwybodaeth Diogel ym mhob bloc newydd o fflatiau sydd â llawr 11m uwchlaw lefel y ddaear neu'n uwch.

Byddwn yn diwygio Dogfen Gymeradwy B i gynnwys canllawiau ar gyfer darparu blychau gwybodaeth diogel mewn blociau newydd o fflatiau (Grŵp Diben 1(a)) sydd â llawr 11m uwchlaw lefel y ddaear neu'n uwch.

## Arwyddion tywys

| **Cwestiwn 23.** | **Ydw%** | **Nac ydw%** | **Ansicr %** | **Dim ymateb** |
|---|---|---|---|---|
| A ydych yn cytuno â'r cynnig i gyflwyno arwyddion tywys ar gyfer y gwasanaeth tân ym mhob bloc newydd o fflatiau (Grŵp Diben 1(a)) sydd â llawr 11m uwchlaw lefel y ddaear neu'n uwch? Os nad ydych yn cytuno, rhowch eich rhesymau. | 57 | 2 | 6 | 35 |

Roedd y mwyafrif (57%) o'r rhai a ymatebodd yn cytuno â'r cynnig. Dim ond 2% a oedd yn anghytuno.

| **Cwestiwn 24.** | **Ydw%** | **Nac ydw%** | **Ansicr %** | **Dim ymateb** |
|---|---|---|---|---|
| A ydych yn cytuno â'r trothwy uchder o 11m? Os nad ydych yn cytuno, nodwch drothwy uchder amgen ac unrhyw dystiolaeth. | 49 | 8 | 6 | 37 |

Roedd y mwyafrif (49%) o'r rhai a ymatebodd yn cytuno â'r cynnig. Dim ond 8% a oedd yn anghytuno. O blith y rhai a oedd yn anghytuno, gofynnodd yr ymatebwyr am i'r arwyddion gael eu hymestyn i gynnwys pob adeilad, yn ogystal ag adeiladau cymhleth, nid dim ond blociau newydd o fflatiau sydd â llawr 11m uwchlaw lefel y ddaear neu'n uwch.

Nododd yr ymatebwyr a oedd yn cytuno y byddai'r newidiadau yn gyson â chanllawiau yn Lloegr.

| **Cwestiwn 25** |
|---|
| A oes unrhyw fathau eraill o adeiladau y dylid eu cynnwys? Rhowch unrhyw dystiolaeth. |

Ymhlith y mathau eraill o adeiladau y cyfeiriwyd atynt yn yr ymatebion y dylid eu cynnwys roedd gwestai ac unrhyw adeiladau â risg cysgu, ond ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth i ategu hyn.

**Ymateb y Llywodraeth i Gwestiynau 23, 24 a 25**
Roedd cefnogaeth gref yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad o blaid y cynnig i gyflwyno arwyddion tywys ym mhob bloc newydd o fflatiau sydd â llawr 11m uwchlaw lefel y ddaear neu'n uwch.

Byddwn yn diwygio Dogfen Gymeradwy B i gynnwys canllawiau ar arwyddion tywys i Wasanaethau Tân ac Achub mewn blociau newydd o fflatiau sydd â llawr 11m uwchlaw lefel y ddaear neu'n uwch. Mae hyn yn cynnwys canllawiau ar arwyddion sy'n nodi lloriau a fflatiau. Ni ddarparodd yr ymatebion unrhyw dystiolaeth o blaid cynnwys yr arwyddion hyn mewn adeiladau sy'n llai nag 11m o uchder.

Rhoddir canllawiau yn y fersiwn ddiwygiedig o Ddogfen Gymeradwy B ar ble i osod arwyddion, y teip, mesuriadau llythrennau a rhifau a gofynion o ran amlygrwydd. Dylai’r arwyddion fod yn glir ac yn hawdd i'w darllen â lefel isel o olau neu pan fyddant wedi'u goleuo â thortsh. Mae hyn yn rhoi hyblygrwydd i ddylunwyr ddefnyddio systemau gwahanol gan sicrhau, ar y un pryd, eu bod yn bodloni'r gofynion swyddogaethol ac yn darparu'r manteision disgwyliedig i ddiffoddwyr tân.

## Dosbarthiadau tân Ewropeaidd

| **Cwestiwn 26.** | **Ydw%** | **Nac ydw%** | **Ansicr %** | **Dim ymateb** |
|---|---|---|---|---|
| A ydych yn cytuno y dylid dileu'r dosbarthiadau cenedlaethol ar gyfer adwaith i dân a'r gallu i wrthsefyll tân ym mhrif gorff Dogfen Gymeradwy B? Os ydych yn anghytuno, pa dystiolaeth y gallwch ei chynnig sy'n amlinellu pam. | 50 | 20 | 8 | 22 |

Roedd y mwyafrif (50%) yn cytuno â'r cynnig. Dim ond 20% a oedd yn anghytuno. Nododd y rhai a oedd yn cytuno y byddai hyn yn osgoi unrhyw ddryswch ac yn cysoni codau a safonau yn y diwydiant. O blith y rhai a oedd yn anghytuno, gofynnwyd inni ymgysylltu â'r diwydiant mewn perthynas ag effaith y newid.

**Ymateb y Llywodraeth i Gwestiwn 26**
Roedd y mwyafrif o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn cefnogi'r cynigion i ddileu'r dosbarthiadau cenedlaethol ar gyfer adwaith i dân a'r gallu i wrthsefyll tân ym mhrif gorff Dogfen Gymeradwy B. Caiff y dosbarthiad cenedlaethol ar gyfer adwaith i dân a'r gallu i wrthsefyll tân ei roi yn yr atodiad i Ddogfen Gymeradwy B.

# 6. Cais am dystiolaeth

Roedd gennym ddiddordeb hefyd mewn rhannau eraill o Ran B lle y gallai fod angen gwneud newidiadau.

## Dosbarthiadau tân Ewropeaidd

**Cwestiwn 27**

Amlinellwch unrhyw bryderon sydd gennych am ddileu pob cyfeiriad at gyfres BS 476 o ddosbarthiadau cenedlaethol yn Nogfen Gymeradwy B (gan gynnwys atodiadau).

Cymysg oedd y farn ynglŷn â dileu pob cyfeiriad at gyfres BS 476 o ddosbarthiadau cenedlaethol yn Nogfen Gymeradwy B. Roedd yr ymatebion yn amrywio o'r rhai a oedd yn credu ei bod yn bryd trosglwyddo i'r rhai a oedd yn credu bod y dosbarthiadau cenedlaethol yn fwy addas at y diben na phrofion Ewropeaidd. Nododd ymatebion eraill y dylai fod cyfnod pontio cyn i unrhyw newidiadau gael eu gwneud.

**Ymateb y Llywodraeth i Gwestiwn 27**
Roedd yr ymatebion yn ddefnyddiol inni ac rydym yn bwriadu gwneud rhagor o waith ymchwil. Bydd unrhyw gynigion pellach ar gyfer dileu pob cyfeiriad at gyfres BS 476 o ddosbarthiadau cenedlaethol yn Nogfen Gymeradwy B yn destun ymgynghoriad cyhoeddus.

## Ail set o risiau

**Cwestiwn 28**

A ydych o'r farn y dylai Dogfen Gymeradwy B gynnwys uchafswm trothwy ar gyfer darparu un set o risiau mewn adeiladau preswyl? Wrth roi'ch ateb, ystyriwch y canlynol:
(a) Ar ba uchder y dylid pennu'r trothwy, yn eich barn chi?
(b) Pa ystyriaethau dylunio a ddylai gael eu hystyried wrth ei gwneud yn ofynnol darparu ail set o risiau? (e.e. gwahanu priodol rhwng y setiau o risiau).

Rhowch dystiolaeth i ategu'ch ateb.

Roedd y mwyafrif o'r ymatebion o blaid cyflwyno uchafswm trothwy ar gyfer darparu un set o risiau mewn adeiladau preswyl.

Roedd rhai themâu cyffredin a godwyd yn yr ymatebion i'r cais am dystiolaeth fel a ganlyn:

- Roedd awgrymiadau ynglŷn â throthwy uchder penodol yn amrywio rhwng 11 a 30m.
- Roedd ystyriaethau dylunio pellach i'w hystyried yn cynnwys mesurau rheoli mwg ac awyru, diogelu cynteddau, rheoli adeiladau, mandadu systemau awyru mwg mecanyddol ar gyfer adeiladau dros uchderau penodol, geometreg a threfniadau / cynlluniau mewnol.
- Ystyriaethau yn ymwneud â mathau o adeiladwaith a therfynau gwahanol yn dibynnu ar ddeunyddiau a mathau o adeiladwaith, h.y. terfynau uwch ar gyfer dulliau traddodiadol.
- Ar y cyfan, roedd ymateb positif o blaid rhagor o risiau am fod hynny yn cynnig rhagor o gadernid, gan ystyried pobl yn dianc yn ogystal â'r gwasanaeth tân yn cael eu galw i ddiffodd tanau mewn adeiladau.
- Ymhlith safbwyntiau eraill a fynegwyd oedd na fyddai cyflwyno ail risiau ym mhob adeilad yn addas o bosibl, ond y dylid ystyried sawl agwedd ar waith dylunio fel y ffactorau allweddol nid dim ond uchder, gyda chwestiynau yn cael eu gofyn am ddyluniad y grisiau eu hunain – h.y. dyluniad a threfniadau grisiau mynediad cyffredinol / diffodd tân.
- Cyfeiriwyd at drefniadau rhyngwladol cyfatebol a chyfyngau ar faint fertigol adeiladau ag un set o risiau.
- Argymhellwyd y dylid mabwysiadu dull gweithredu sy'n seiliedig ar risg ac, yn dibynnu ar yr asesiad risg, ddefnyddio trothwyon gwahanol.
- Ystyriaethau o ran grisiau allanol fel opsiwn amgen.
- Pryderon ynghylch mesurau rheoli mwg a'u heffeithiolrwydd dros uchderau penodol.
- Dylid ystyried griwiau amgen annibynnol gwirioneddol – h.y. ar wahân, annibynnol, – gyda dyluniad da addas, gellir ystyried grisiau gerllaw fel opsiynau amgen gwirioneddol.
- Awgrymwyd y dylid adolygu canlyniadau anfwriadol posibl.

**Ymateb y Llywodraeth i Gwestiwn 28**
Roedd yr ymatebion a gafwyd yn adeiladol ac roedd y mwyafrif o'r rhai a ymatebodd o blaid cyflwyno uchafswm trothwy ar gyfer darparu un set o risiau mewn adeiladau preswyl. Rydym yn bwriadu defnyddio'r wybodaeth hon a gwneud rhagor o waith ymchwil sydd ei angen i ystyried gofynion ar gyfer grisiau mewn adeiladau.

Bydd unrhyw gynigion pellach yn destun ymgynghoriad cyhoeddus.

| |
|---|
| **Cwestiwn 29**<br><br>Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol yn y papur hwn. Os oes gennych unrhyw sylwadau eraill i'w gwneud ynglŷn ag unrhyw un o'r cynigion, nodwch nhw yma. |

**Ymateb y Llywodraeth i Gwestiwn 29**
Cafwyd sylwadau amrywiol ynglŷn â materion diogelwch tân. Lle y bo'n berthnasol, caiff y sylwadau hyn eu datblygu a'u cynnwys mewn gwaith ymchwil yn y dyfodol.

## 7. Asesiadau o Effaith

| **Cwestiwn 30.** | **Ydw%** | **Nac ydw%** | **Ansicr %** | **Dim ymateb** |
|---|---|---|---|---|
| A ydych yn cytuno â'r amcangyfrifon o gostau a'r Asesiad cyffredinol o'r Effaith? Os nad ydych yn cytuno, esboniwch yr hyn sy'n briodol yn eich barn chi a rhowch dystiolaeth i ddangos pam. | 22 | 4 | 30 | 43 |

O blith yr ymatebwyr a roddodd ateb cadarnhaol/negyddol i'r cwestiwn hwn, roedd y mwyafrif helaeth yn cytuno â'r amcangyfrifon o gostau a'r Asesiad cyffredinol o'r Effaith.

O blith yr ymatebwyr a roddodd ateb negyddol, nododd rhai sylwadau nad oedd unrhyw gyfeiriad at ddileu pob cyfeiriad at gyfres BS 476 o ddosbarthiadau cenedlaethol yn yr asesiad o'r effaith. Awgrymodd sylw arall y gallai cynigion yr ymgynghoriad fod wedi mynd ymhellach ac y gallai'r asesiad o'r effaith fod wedi cyfiawnhau hyn o safbwynt economaidd gyda rhagor o ragdybiaethau gwrthffeithiol.

Cawsom sylwadau hefyd ynglŷn â chost uchel difrod i eiddo a achosir gan danau gan gynnwys data, a phetai deunyddiau anllosgadwy yn cael eu defnyddio ym mhob wal allanol, byddai'r manteision canlynol yn cael eu gwireddu:

- Llai o gyfle i dân ledaenu'n eang.
- Llai o'r adeilad yn cael ei golli yn ystod tân (colled ddisgwyliedig arferol is).
- Llai o gyfle i'r adeilad cyfan gael ei golli yn ystod tân (uchafswm colled ddisgwyliedig is).

**Ymateb y Llywodraeth i Gwestiwn 30**
Mae'r Asesiad o'r Effaith yn cyflwyno asesiad o'r effeithiau, a oedd yn gorfod bod yn un eang, sy'n seiliedig ar gostau datblygu tybiedig. Gan ddefnyddio'r sail hon, mae'r asesiad o'r effaith yn dangos effaith debygol y newidiadau arfaethedig.

Mae sylwadau mewn perthynas â BS 476 wedi'u nodi. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, dim ond safbwyntiau (cais am dystiolaeth) mewn perthynas â dileu pob cyfeiriad at BS 476 o

bosibl (cynnig yr ymgynghoriad yw symud cyfeiriadau i'r atodiad) a geisir gennym. Felly, gan nad yw hwn yn gynnig cyfredol, nid ydym wedi'i gynnwys ar hyn o bryd. Bydd asesiad o'r effaith yn ategu unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus a gynhelir mewn perthynas â hyn yn y dyfodol.

Rydym hefyd yn nodi'r sylwadau mewn perthynas ag ymestyn cynigion i gynnwys adeiladau eraill neu bob adeilad o safbwynt economaidd. Mae'r posibilrwydd o ymestyn cynigion i gynnwys adeiladau eraill yn cael ei ystyried yn y cwestiynau uchod. Os caiff unrhyw gynigion eu hymestyn, cânt eu nodi mewn asesiad terfynol o'r effaith.

Byddai asesiad terfynol o'r effaith yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r Rheoliadau sy’n diwygio Rheoliadau Adeiladu 2010 a'r canllawiau cysylltiedig.

**Cwestiwn 31**

Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r diwygiadau arfaethedig yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol o ran cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

Ni wnaeth y mwyafrif o'r ymatebwyr roi unrhyw sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn. Lle y cyflwynwyd sylwadau, roedd rhai o'r farn na fyddai unrhyw effeithiau ar y Gymraeg ac awgrymodd sylwadau eraill y dylid darparu'r dogfennau/deddfwriaeth gymeradwy yn Gymraeg a Saesneg. At hynny, cafwyd sylwadau mewn perthynas â chynhyrchion adeiladu (e.e. arwyddion a systemau rhybudd i wacáu) yn nodi y dylent fod ar gael yn Gymraeg.

**Cwestiwn 32**

Esboniwch hefyd sut rydych yn credu y gellid llunio neu newid y camau gweithredu arfaethedig er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg, heb unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Fel yng nghwestiwn 31, ni wnaeth y mwyafrif o'r ymatebwyr roi unrhyw sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn. Lle y cyflwynwyd sylwadau, roeddent yn debyg i gwestiwn 31 uchod.

**Ymateb y Llywodraeth i Gwestiynau 31 a 32**
Mae'r Gymraeg yn flaenoriaeth strategol i Lywodraeth Cymru a'i nod yw creu Cymru lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Er mwyn helpu i wneud hyn, mae Safonau'r Gymraeg yn set o ofynion cyfreithiol gyfrwymol sy'n gymwys i Lywodraeth Cymru. Ystyrir pob dogfen Rheoliadau Adeiladu yn erbyn y safonau ac fe'u cyhoeddir yn unol â hynny.

## 8. Y Camau Nesaf

Byddwn yn diwygio’r Rheoliadau Adeiladu 2010 yn unol ag Ymateb y Llywodraeth i'r Ymgynghoriad.

Bydd Dogfen Gymeradwy B (Diogelwch tân) Cyfrol 1 a 2 yn cael ei datblygu ymhellach a'i chwblhau yn unol ag ymatebion y Llywodraeth uchod. Rhoddir ystyriaeth bellach i'r manylion sydd eu hangen mewn canllawiau.